YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] HYDREF, 1893. [RHIF 70

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

Y DDADL AR Y DRINDOD.

[Gyda golwg ar y ddadl hon sydd yn ymddangos o wythnos i wythnos yn yr *Herald Cymreig*, carem roddi llythyrau galluog y Parch. W. Rees, o Lechryd, ar dudalenau yr YMOFYNYDD, ond yr ydym yn ofni y cymmerai hyny ormod o'n gofod. Achwyna un o'r gohebwyr ereill yr hwn a gyfenwa ei hun yn D.P. ar R.J.J. am ei fod, yn ol barn D.P. yn gwneyd camddefnydd o adnodau, ac yn eu troi i ateb ei amcanion ei hun. Protestia Mr. Rees yn erbyn y cyhuddiad hwn, ac amddiffyna R.J.J., a thala warogaeth uchel iddo fel dadleuydd teg. "Croes wyf" meddai Mr. Rees, "i D.P. yn cyhuddo R.J.J. o ddrwg-amcan wrth esponio. Coeliaf fod R.J.J. o'r cychwyn yn batrwn o ddadleuydd gonest o'i gred; ac eneiniad cariad ar ei eiriau—y mwyaf peth yn y Bydysawd." Cynghorwn ein darllenwyr i fynu gweled llythyrau Mr. Rees.—GOL.]

"We live by faith, but faith is not the slave
Of text and legend. Reason's voice and God's,
Nature's and duty's, never are at odds."

SYR,

Yn yr *Herald* am Awst 1, dywed D.P. ei fod yn eglur fy mod I "yn ceisio gwyrdroi" yr adnodau. Yn awr Mr. Gol., y mae hwn yn gyhuddiad pwysig. Pe dywedasai yn unig fy mod yn gwyrdroi buasai yn ddigon drwg, ond ni fuasai o angenrheidrwydd yn golygu dim rhagor na gwahaniaeth barn; ond pan y dywed mai dyna yw fy *nghais*, mae'n priodoli i mi amcan nas gall yn bosibl ei brofi. Ceisio wnes I i osod gerbron yr adnodau fel y maent yn y cyfieithiad diwygiedig Seisnig, ac os wyf wedi methu yn fy nghais rhwydd digon fyddai iddo ef fy ngosod ar yr iawn. Nid yw D.P. wedi gwneuthur dim o'r fath. Mae wedi nodi un adnod a fu dan sylw genyf, sef 1 Tim. iii. 16, ond ni ddywed fy mod wedi gwneuthur cam a hono. Yr hyn a ddywed yw fod yr ystyr yr un ag o'r blaen. Barned y darllenydd am hyny; ond os felly, i ba beth y gwnaed y cyfnewidiad? Yn un o'r hen gopiau

o'r Testament Groeg, y *codex* Alexandrinus, sydd yn awr yn yr Amgueddfa Brydeinig, mae y cyfnewidiad a wnaed yn amlwg hyd heddyw, oherwydd yr inc tywyllach. Dyma'r ysgrif lle mae Mair yn cael ei galw yn "Fam Duw," mewn cyssylltiad a'r *Magnificat* (Luc i 46, &c.)

Nid oes dim a fyno y "dirgelwch" â'r Drindod, nac â'r un o'r athrawiaethau poblogaidd, dybiaf fi. Ni wyddai Paul ddim am y cyfryw. Y dirgelwch yn meddwl Paul oedd derbyniad y cenedloedd (yn groes i ddysgwyliad yr Iuddewon) i ragorfreintiau yr Efengyl. Gwel Eph. i. 9; iii. 3. Barna Esgob Ellicott am weddill yr adnod, mai dyfyniad o hen emyn neu gyffes ffydd yw. Sylwer, fel hyn:—

"Ac yn ddiddadl mawr yw dirgelwch duwioldeb:
Yr hwn a ymddangosodd yn y cnawd;
A gyfiawnhawyd yn yr yspryd;
A welwyd gan angylion;
A bregethwyd i'r Cenedloedd;
A gredwyd iddo yn y byd;
A dderbyniwyd i fyny mewn gogoniant."

Nid "*Duw* a ymddangosodd" yw y darlleniad cywir; er yn eithaf gwir fod Duw wedi ei ddangos neu wedi ei amlygu felly. "*The best man is the noblest manifestation of God.*" Yn yr Iesu ceir y datguddiad neu'r amlygiad perffeithiaf, cyflawnaf o Dduw. Eithr nid dyna sydd yn yr adnod yma. *Yr hwn* a ymddangosodd yw yr Iesu, yr hwn oedd yn wir ddyn, ac nid yn ddyn mewn ymddangosiad yn unig, fel yr oedd rhai o'r Gnosticiaid neu'r Docetiaid yn dysgu. Gwel 1 Tim. i. 4; vi. 20. Cymharer 1 Ioan iv. 2, 3; 2 Ioan, adnod 7.

"A gyfiawnhawyd," &c. Er gwaeled ei ddrych a thloted ei amgylchiadau, profwyd ef trwy ddoniau yr Yspryd Glan yn gyflawnder pob gobaith.

"A welwyd," &c. A ymddangosodd i'w genhadon, yr apostolion, 1 Corinthiaid, xv. 4—8.

Gyda'ch cenad Mr. Gol., gwnaf rai sylwadau yn fy nesaf ar "Greadigaeth pob peth trwy Iesu Grist."

Awst 14*eg*, 1893. R.J.J.

Syr,

Dyma eiriau y Proffeswr Henry Drummond:—"It is almost impossible to obliterate childish impressions, and hence we should take the utmost care to guard our children against bad books, bad theology, and a bad conception of the Father." Mae yn ddyledswydd arnom i edrych fod ein syniadau yn gyfryw ag a ddaliant dir yn wyneb gwybodaeth yr oes. Nid am ddim mae ein pobl ieuainc wedi pasio eu *standards*. Ceisiwn y gwir, yr holl wir, a dim ond y gwir. Ceisiwn ystyried beth a saif wedi yr holl ysgwyd (Heb. xii. 26, 27) a wneir gan wyddor a chan feirniadaeth Feiblaidd. Fe saif y gwir nad o ba le y daw os byddwn ni yn ffyddlon, ac fe'i cawn i gyd yn gyson. Ni fydd un gwrthdarawiad rhwng gwirionedd y Beibl a gwirionedd Natur neu

wyddor. Eiddo Duw yw pob gwirionedd, ac ni ddichon Duw groesi ei hunan. Mae meddwl Duw yn un ac yn berffaith. Gallwn ni ei gam-ddarllen a'i gam-ddeall. Derbynir trysorau Duw mewn llestri pridd, ac ni allant lai na dwyn nodau y cyfrwng trwy yr hwn y deuant. Gall y goleuni fod yn bur, goleuni yr haul, er enghraipht, ond ni ddichon basio trwy un cyfrwng, nac awyr na gwydr, heb ei ddiwyno.

Mae Duw yn llefaru wrth bob cenedl, megis mae ei haul yn tywynu ar bob cenedl, ond dibyna ar y genedl pa faint all ddal o'r hyn a lefarir. Os cyfyng fydd gwddf y botel, yn araf y llenwir hi. Ystyriwn ein Beibl, y gwerthfawrocaf o lyfrau y byd, ond nid yr un yw moesoldeb na duwinyddiaeth y Beibl o'i ddechreu i'w ddiwedd. Mae'r dadblygiad yn y Beibl yn cydfyned a dadblygiad y genedl. Mae'r gallu derbyniol wedi amrywio a gwerth y gwirionedd wedi tyfu trwy'r oesau. Cawn dyfiant cenedl yn debyg i dyfiant dyn, ac i bob un ddydd ei bethau bychain.

Paham na chaniatawn i ddynion agor eu llygaid? I ba beth y rhoddwyd llygaid, clustiau, rheswm, deall i ni? Profwch bob peth. Peidiwch bod fel y brithyll bach, yr hwn a dybia ei hun yn ddyogel, ond iddo gael ei ben o'r golwg dan y gareg.

Mae llawer o adnodau wedi cropio i fyny yn ystod y ddadl yma. Nid posibl cyffwrdd â'r oll. Pe digwyddasai Paul fod wedi dywedyd yn eglur a diamwys mai yr Iesu a greodd y Cosmos, dymunwn ofyn gyda phob gostyngeiddrwydd a fyddai yn rhesymol i ni ei gredu? Bernwch chwi, meddai Paul, beth yr wyf fi yn ei ddywedyd. Yr wyf wedi cyffwrdd a'r adnodau yn y Colossiaid.

Yn Eph. iii. 9, darllenwn (Beibl Cymraeg): "Yr hwn a greodd bob peth (trwy Iesu Grist)." Ychwanegiad yw y tri gair olaf gan law ddiweddarach, ac y maent wedi eu gadael allan o'r Cyfieithiad Diwygiedig Seisnig.

Yn Eph. i. 9, 10, 17—23, nid oes cyfeiriad at y byd materol, y Cosmos, ond at y byd o ddynion. Adnod 21, yn y byd hwn, nid y Cosmos, ond yr oes neu yr oruchwyliaeth Foesenaidd, a'r byd (oes) a ddaw yw yr oruchwyliaeth Gristionogol, i ddechreu yn y man, fel y tybiai Paul, sef gydag ail ddyfodiad Crist. "Yr holl bethau," "pob peth," pethau perthynol i'r oruchwyliaeth newydd.

Mae awdwr anhyspys yr epistol at yr Hebreaid yn cael ei ddyfynu yn fynych i'r un perwyl: trwy yr hwn y gwnaeth efe y bydoedd (i. 2), nid y Cosmos, ond yr oesoedd, dyna'r gair geir yma. A'r adnod nesaf, "gwir lun," cymharer 1 Cor. xi. 7, lle y dywedir fod y gwr yn ddelw (neu lun) a gogoniant Duw. Ai Duw yw y gwr? Rhoddir yma safle uchel i'r Mab (sef y Messiah)—ychydig bach yn is na'r angylion. Rhyfedd hyn, os am y Duw Goruchaf, crewr dynion ac angylion y sonir.

Yn adnod 8, dyfynir o Psalm xlv. 6, mewn ystyr Fessianaidd, fel y tybir, a chyfeirir at y Mab fel Duw. Ond a chaniatau fod y Cyfieithiad yn iawn, rhaid fod y gair yn cael ei ddefnyddio mewn ystyr israddol, heb hyny nid oes synwyr mewn dywedyd "am hyny y'th eneiniodd Duw âg olew gorfoledd tu hwnt i'th *gyfeillion*." Os yn Dduw Gor-

uchaf, sut gallai fod iddo Dduw, a sut, gyfeillion, neu gymdeithion *(fellows)*. Cyfieithia rhai yn wahanol—"God is thy throne into the world of worlds," (Wiclif).—"Duw fydd dy sedd yn oes oesoedd,"—Tindall.—"Duw yw dy orsedd yn oes oesoedd," yn ol Griesbach. Dywed Erasmus fod yr ystyr yn amheus, ond mae'n caniatau, "Duw ei hunan yw dy orsedd." Mae Grotius yn adgoffa fod y Psalm yn cyfeirio at Solomon, dan yr enw Elohim. Os cyfeirir at Solomon, cyfieithir fel hyn, "Fel y ceidw yr orsedd ddynion yn ddiaflonydd, felly y cynnal Duw di yn wastad yn dy deyrnas." Os at Grist, "Duw a'th ddeil di i fyny yn dy deyrnas," &c. Rhydd y cyfieithiad diweddaf Seisnig yr hen gyfieithiad, ond ar ymyl y ddalen, "Dy orsedd yw gorsedd Duw," &c. Solomon yn amlwg yw prif bwnc y Psalm: "Dy orsedd di, o Dduw (Elohim, sef Solomon) sydd byth," &c.

Heb. ii. 15, 16.—Darllener "Canys nid mewn angylion y cymer *efe* afael, eithr cymeryd gafael wna yn hâd Abraham." Yr "efe" yw ofn marwolaeth, adnod 15. Ceir felly ystyr gwahanol iawn i'r un poblogaidd.

Awst 30, 1893. R.J.J.

AETH HEIBIO'R HAF.

Aeth heibio'r Haf
A'i flodau braf,
E gasglwyd ffrwythau'r maes i gyd;
Haul, gwlaw, a gwlith,
Yn iachus flith,
Faethasant had a chnydiau'r byd.

Y gwenith claer
Addurnai'r ddae'r;
Fel môr o aur rhwng glanau gwyrdd;
A'r aeron pêr,
Mewn gerddi têr,
A wrident ar gangenau fyrdd.

Holl goedydd teg
Y gwigoedd chweg
A wisgid mewn gwyrddlesni byw;
Pob llwyn yn llawn
O ednog ddawn,
Yn moli mawr haelioni Duw.

Mewn grug a brwyn
E ddawnsia'r ŵyn
I fywiog gerdd y gornant lân;
A'r glöyn byw*
Fel angel gwiw
Gusanai ruddiau'r blodau mân.

Pa beth yw'm hoes
Ond Haf digroes,
Os rho'f ar Dduw fy serch a'm bryd!
'N ei gariad mwyn
Efe a'm dwyn
Yn iach drwy holl dreialon byd.

O dirion Dad!
Bywha yr had
A blenaist Di, pan roist i'm chwyth,
Fel pan y daw'r
Medelwr Mawr,
Bydd ynof ffrwyth na lygra byth.

1893. E. Ceredig Jones.

UN O ARWYDDION YR AMSERAU.

Diau fod y rhan fwyaf o'n darllenwyr wedi clywed am y Parch. Hugh Price Hughes. Ganwyd ef yn Nghymru, ond y mae yn awr yn weinidog gyda'r Wesleyaid yn Llundain, ac yn sefyll yn uchel yn ngolwg ei gydgrefyddwyr. Tyra cannoedd lawer i'w wrandaw bob Sul yn un o neuaddau mwyaf eang y brif ddinas, a'r rhan fwyaf o'r gwrandawyr yn perthyn, meddir, i'r dosparth gweithiol, ac nid rhyfedd hyn ychwaith. Y mae'r yspryd newydd sydd yn y dyddiau hyn yn gweithio ei ffordd i'r enwadau crefyddol wedi cymmeryd meddiant cyflawn o Mr. Hughes. Diau ei fod yn siaradwr da, ac fod hyn yn cyfrif rhywfaint am ei boblogrwydd; ond nid yn gyfangwbl, oblegyd yn ychwanegol at ei allu fel siaradwr, y mae'r materion yr ymdrinia â hwynt yn cyfrif am lawer o'i boblogrwydd. Mae yn ymdrin â phynciau'r dydd, ac nid â'r cyfryw sydd bellach wedi llwydo gan henaint. Defnyddia hefyd iaith seml, a dulliau hollol wahanol i'r rhai a arferir mewn cyfarfodydd crefyddol yn gyffredin.

Ychydig amser yn ol, bu y Wesleyaid yn cynnal eu cymmanfa flynyddol yn Nghaerdydd, ac yn mhlith y siaradwyr yr oedd Mr. Hughes. Nid oedd dim yn neillduol i sylwi arno yn yr oll o'r lluaws pregethau ac areithiau a draddodwyd yn ystod y cyfarfodydd, oddigerth pregeth

* Iâr fach yr Haf.

gan y gwr dan sylw. Yn y crynodeb o'r bregeth a gyhoeddwyd yn un o'r papyrau dyddiol, mae'r geiriau canlynol i'w gweled :—"Traddododd Mr. Hughes anerchiad hir ac ymarferol, yn yr hwn y sylwai ar y pwysigrwydd o astudio Cristionogaeth oddiwrth eiriau ei Sylfaenydd, fel y ceir hwynt yn yr Efengylau, yn hytrach nag oddiwrth yr epistolau. Sylwai yn fwyaf neillduol ar y ddau syniad o Dadoldeb Duw a brawdoldeb dyn." Llefarwyd y geiriau hyn gan Iawnffyddwr wrth gynnulleidfa o Iawnffyddwyr ; ac yn hyn y mae'r syndod yn dod i fewn, o herwydd os rhoddodd Mr. Hughes ddatganiad i'r sylwadau uchod, yr oedd yn pregethu Undodiaeth yn ei phurdeb. Pe buasai geiriau o'r fath hyn wedi cael eu llefaru allan o bwlpud Undodaidd, ni fuasent yn achosi un syndod, o herwydd y mae'r syniadau hyn yn berffaith adnabyddus i bob Undodwr.

Yn y crynodeb uchod o anerchiad Mr. Hughes, y mae dau beth yn gofyn sylw. (1) Annogai ei wrandawyr i astudio Cristionogaeth oddiwrth ei Sylfaenydd. Wel, beth pe buasai hyn wedi cael ei wneyd o'r dechreu hyd yn awr—beth fuasai'r canlyniad ? Ai tebyg y buasai'r byd erioed wedi clywed am athrawiaethau'r Drindod, y Pechod Gwreiddiol, yr Iawn, Etholedigaeth, Tragwyddol Gosp, &c. ? Fedr Mr. Hughes, neu ynte rywun arall o'i gydgrefyddwyr, nodi allan eiriau wedi eu llefaru gan Iesu Grist ei hunan ydynt yn ymylu yn y modd lleiaf at ddysgu fod Tri o Bersonau yn bodoli yn y Duwdod—y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân ; fod Iesu Grist yn Dduw Anfeidrol, gogyfuwch mewn gallu a nerth a gwybodaeth ; fod dyn yn bechadur o herwydd pechod Adda ; fod Iesu Grist, y diniwed, wedi gorfod dyoddef dros bechaduriaid ; fod dyn yn cael ei gospi gan Dduw am beidio credu yn iawn ; ac fod y dynion na chlywsant erioed son am Iesu Grist i fyned i golledigaeth dragwyddol ? Mentrwn ddweyd nas gall un Iawnffyddwr nodi allan un gair o eiddo Iesu Grist sydd yn dysgu un o'r syniadau hyn. Ac etto, y rhai hyn yw y syniadau poblogaidd yn y byd Cristionogol heddyw ; a dyna syniadau Mr. Price Hughes—o leiaf, nid ydys wedi clywed, hyd yn hyn, ei fod wedi ymwrthod â hwynt. Wrth gwrs, pan y mae yn cynghori dynion i astudio Cristionogaeth oddiwrth eiriau ei Sylfaenydd, y mae pob Undodwr yn barod i ddweyd Amen ; ond ar yr un pryd, nis gallwn beidio cofio'r hen ddywediad, "Y meddyg, iacha dy hun." (2) Tadoldeb Duw. Dyma syniad sydd wedi cael ei bregethu allan o bwlpudau Undodaidd trwy'r blynyddau. Ac y mae Mr. Hughes yn annog yr eglwysi i dalu mwy o sylw i'r syniad hwn heddyw. Oddiwrth hyn, casglwn fod Mr. Hughes ei hun yn credu yn gryf yn Nhadoldeb Duw. Ond atolwg, a ydyw Mr. Hughes yn credu, fel y gwna ei enwad, fod Duw yn cospi y mwyafrif mawr o'i blant am bob tragwyddoldeb am bechod sydd wedi ei gyflawnu gan ddyn arall ? O herwydd creda'r Iawnffyddwyr yn gyffredin fod Adda wedi pechu, ac fod holl ddynolryw, mewn canlyniad, yn bechadurus, ac nad oes gobaith byth iddynt am ryddhad, os na wnant gredu yn Nghrist. A ydyw Mr. Hughes yn credu hyn ? Ac os yw Duw yn gallu cospi dyn am bob tragwyddoldeb am bechodau dyn arall —yr hyn, pe yn cael ei wneyd gan ddynion ar y ddaear, y byddai Mr.

Hughes gyda'r cyntaf yn ei gondemnio—a ydyw yn bossibl credu fod y Duw hwn yn Dad? Un o elfenau mwyaf pwysig Tadoldeb yw tynerwch a chariad; ond nis gellir byth ddweyd fod un gronyn o dynerwch nac o gariad mewn bod sydd yn gallu cospi ei greaduriaid am bob tragwyddoldeb, heb obaith am adferiad. Nis gall pob Undodwr lai na llawenychu wrth weled yr arwydd ychwanegol hwn fod y syniadau a bregethid hyd yn awr allan o bwlpudau Undodaidd yn dechreu cael eu traethu allan o bwlpudau y gwahanol enwadau. Yr oedd cyhuddiad Mr. Spurgeon yn eithaf gwir, wedi'r cyfan. Llawenychwn yn y ffaith, er nas gallwn weled y cyssondeb.

ADGOFION CYMRU FU.—PENOD ANGHOFIEDIG.

6. Y Symudydd Parhaus *(Perpetual Motion.)*

Gweler Rhifyn Mehefin.

Twymyn rhyfedd feddianodd lawer mewn llawer gwlad flynyddoedd yn ol oedd yr awydd i gael gafael yn y Symudydd Parhaus. Ni ddiangodd Cymru y dwymyn. Gwir mai math o Jack y Lantarn a chwen ddisail oedd y syniad, ond yn ddiamheu na ddarfu i'r ymchwil arwain i ddeffroad meddyliol mewn llawer mynwes. Arweiniodd serddewiniaeth i seryddiaeth, a'r alchemy i chemistry, ond nid wyf yn cofio am yr un darganfyddiad o bwys a wnaed yn ystod yr ymchwiliad yma am hunan-symudydd parhaus.

Wrth Symudydd Parhaus golygid peiriant a allai adnewyddu o hono ei hun ei allu dechreuol i gychwyn—cloc fyddai yn ail godi ei bwysau ei hunan yn unig trwy weithrediad ei rodau â'i ddringlyn ei hunan, fel na byddai eisieu un gallu allanol i godi ei bwysau.

Dywed Alexander Pope:

> A little knowledge is a dangerous thing,
> Drink deep, or taste not the Piërian spring.

Pe byddai gan y bobl yma fwy o wybodaeth o ddeddfau natur, arbedid eu trafferth. Eto nis gallwn lai nag edmygu y chwilfrydedd dyfeisiol yma nad pa le y cawn ef. Ond nis gellir arllwys allan o lestr fwy nag sydd wedi ei osod i fewn; ni ellir dadrolio o'r calico ond cymmaint ag a roliwyd i fewn. Nid oes yr un cyfuniad o alluoedd peirianyddol a ddichon ychwanegu dim at y swm a gyflëir ar y dechreu. 'Rwyf yn cofio yr Iarll Kelvin presenol unwaith yn gosod peiriant i weithio wrth *electric power*, a thybiodd rhai fod y darganfyddiad mawr wedi ei wneud, ond ni ellid cael ond swm penodol o allu symud, a hyny mewn cyfartaledd i swm y defnyddiau osodwyd i fewn. O ddim, dim a ddaw. Wedi codi pwysau cloc, fe aiff nes bo'r pwysau wedi myned i lawr,

dyna i gyd. Saer yn Llanarth a dybiodd y gallai osod dau spring (tebyg i spring *watch)* i weithio yn y fath fodd fel y gwnai un spring gymmeryd i fyny o hyd y pwer oedd y llall yn golli. Yr oedd un spring i gario y gwaith yn y blaen am amser penodedig, ac yna y llall i gymeryd y gwaith i fyny yn ei le, ac felly ar gylch, bob yn ail o hyd. *Idea* swynol, ond hollol anymarferol. Gwnaeth ddau spring mawr nerthol. Gosododd hwy ar waith y naill yn erbyn y llall; ond er syndod a dychryn i'r dyfeisydd, dechreuodd y peiriant neidio a dawnsio. Rhedodd y dyfeisydd am ei fywyd, ac ymguddiodd dan y ffwrwm, lle y cafwyd ef, mor wyn a'r wal, rai oriau yn ddiweddarach, pan y galwyd ef i giniaw.

Melinydd yn Llandyssul a dybiodd y gallai wneuthur rhod ei felin i weithio yn barhaus wrth yr un dwfr. Ceisiodd drefnu i'r rhod godi i fyny yn un pen y dwfr oedd yn ei yru yn y pen arall. Ond methodd yntau. A barn Tomos y Gof o Felin Gletwr oedd y ceid allan y symudydd parhaus pan y gallai dyn godi ei hun i fyny mewn wyntyll wrth gydio yn y ddwy clust; neu pan y gallai godi ei hun i ben y bwrdd gerfydd strapiau ei ddwy esgid.

Awst 30, 1893. P.P.

YMWELIAD A LLYNLLEIFIAD.

Un o freintiau mwyaf derbyniol gweinidogion yr Efengyl yw talu ymweliad â gwahanol eglwysi, fel Paul gynt; ond mae gwahaniaeth pwysig rhwng y driniaeth annhrugarog a dderbyniodd apostol mawr y cenedloedd a'r croesawiad roddir i'w olynwyr yn yr oes bresennol. Yr oedd ef "mewn angen yn fynych;" ond, os lleddir ei olynwyr o gwbl, lleddir hwynt â charedigrwydd. Dyna, beth bynag, yw profiad yr ysgrifenydd. Yn y Gwanwyn, penderfynais dderbyn cyhoeddiadau i bregethu mewn gwahanol leoedd yn ystod fy mis o wyliau, yn benaf er mwyn gweled cyflwr Undodiaeth yn ein prif eglwysi; a daeth i'm rhan i draddodi fy ngenadwri yn nghapel Renshaw-street, Llynlleifiad, ar y 13eg cyfisol. Yno, fel y gŵyr llawer o ddarllenwyr yr Ymofynydd, y llafuriodd y diweddar Ddr. Charles Beard am lawer o flynyddau, ac yno hefyd mae ei olynydd ieuanc, y Parch. L. P. Jacks, M.A., yn cyflym ddringo i enwogrwydd. Mae y capel o arddull syml, fel y cyffredinolrwydd o addoldai Ymneillduol; ac mae yn amlwg y cynlluniwyd ef ar gyfer cysur y gwrandawyr yn hytrach nag fel addurnwaith adeiladol. Mae ynddo amryw gof-feini marmor heirdd dros ben, i ddynodi byr hanes a gorphwysle enwogion yr enwad, megys y Pabydd tröedig, J. Blanco White, a'r llenor diwylliedig William Roscoe. Mae y pwlpud yn uchel iawn, a phe bai meusydd gwyrddion i'w gweled o'm hamgylch, gallwn dybio fy mod yn llefaru oddiar ben "Tŵr y Dderi." Mae pobl Llynlleifiad yn wrandawyr da odiaeth; ac mae yn wirionedd teilwng o sylw fod gwrandawyr da yn gwneyd pregethwyr da. Dichon fod eglwys Renshaw-street y gyfoeth-

ocaf yn yr enwad; ac fel enghraifft o'i haelionusrwydd, gellid nodi y ffaith ddarfod iddi gasglu, ar un Sul y flwyddyn ddiweddaf, y swm o £628 at glafdai y ddinas. Dyna gasgliad da, onide?

Eglwys Hope-street yw eglwys gadeiriol yr Undodiaid yn Llynlleifiad. Adeiladwyd hi gan arianwr cyfoethog o'r enw Mr. Pemberton Heywood, pan oedd yr Hybarch Ddoctor James Martineau yn weinidog yno. Mae yn adeilad hardd a chostfawr iawn, yn yr arddull Gothaidd. Mae y tŵr yn bedwar-onglog i fyny hyd tua'i hanner, ac oddiyno i'w gopa ffurfia bigwn llathraidd. Tua hanner ei uchder, lle y newidia ei ffurf, saif y pedwar Efengylwr—Matthew, Marc, Luc, a Ioan,—un ar bob congl, fel pe yn gwylio y gwirionedd a draddodir oddifewn, ac yn prysur ddysgwyl gweled rhyddid crefyddol yn gwawrio yn mhedwar cwr y byd. Cefais yr hyfrydwch o bregethu yno flwyddyn yn ol, ar fy ffordd adref o'r Iwerddon. Mae y Parch. R. A. Armstrong, B.A., yn wr cryf yn mhob ystyr. Mae yn bregethwr meddylgar, ac yn elyn penderfynol i bechodau mwyaf haerllug y ddinas, sef meddwdod ac anfoesoldeb. Mae angen mawr am y fath ddynion yno, lle gellid meddwl, wrth weled lluosogrwydd y tafarndai, na yfa y trigolion ddim ond gwirodydd meddwol.

Yr achos Undodaidd hynaf yn yr holl ororau yw yr Ancient Chapel, Toxteth Park. Perthynai yr adeilad, ganrifoedd yn ol, i'r Pabyddion. Ar ol y Diwygiad, daeth i feddiant y Protestaniaid; a thrwy ddylanwad y pendefig Puritanaidd, Arglwydd Sefton, daeth yn gartref crefyddol i gynnulleidfa o Annghydffurfwyr. Unwaith safai mewn man tawel yn mhell o swn y byd; ond, erbyn hyn, mae y dref wedi ei oddiweddyd. Er hyny, ceidw ei agwedd wledig a henafol, ac mae y fantell iorwg a'i gorchuddia mor werdd ac erioed. Mae ei weinidogion wedi cymmeryd rhan bwysig yn symmudiadau crefyddol y ddau canrif diweddaf. Y Parch. V. D. Davis, B.A., or-ŵyr David Davis, o Gastell Hywel, yw y gweinidog presennol. Pryd bynag y cyfarfyddaf ag un o luosog ddisgynyddion yr hen ysgolhaig enwog, daw ei eiriau i'm meddwl:—

> "Ar y banc mewn rhedyn tewion,
> Rhwng y defaid a'r da duon,
> Syrthiais gyntaf ar fy neulin
> Wedi syrthio, ffaelu erfyn."

Er hyny, "erfyn" a wnaeth, ac mae bendith y Nef yn dylyn yr erfyniad hyd y dydd hwn.

Mae amryw achosion Undodaidd ereill yn y ddinas a'r gymmydogaeth, o'r rhai y mwyaf pwysig a dyddorol o lawer yw y sefydliad a elwir y "Genadaeth Deuluaidd" (*Domestic Mission*), lle mae y Cymro siriol a thwymgalon, y Parch. Thomas Lloyd-Jones, yn weinidog. Teilwng yw priodoli cychwyniad yr achos hwn i'r enwog Ddoctor Tuckerman, cyfaill mynwesol Doctor Channing, yr hwn a sefydlodd gangen newydd o waith Cristionogol yn yr Unol Dalaethau, yn y flwyddyn 1828. Sylwai fod llawer iawn o dlodion yn ninasoedd America nad oeddynt o gwbl dan ddylanwad Cristionogol, a phender-

fynodd gyflwyno ei hun i'r gwaith o ddwyn bendithion yr Efengyl i'w cartrefi. Ei gynllun oedd ymweled yn rheolaidd â chynnifer o deuluoedd, lle cawsai dderbyniad, a'u cynnorthwyo yn mhob modd o fewn ei allu i ymddyrchafu mewn ystyr foesol ac ysprydol. Talodd ymweliad â'r wlad hon yn y flwyddyn 1833, a gwnaeth ei eiriau argraff ddofn ar feddyliau blaenoriaid yr enwad yn ein prif drefydd. Dydd Nadolig, 1835, pregethodd y Parch. John Hamilton Thom (yr hwn sydd etto yn fyw) bregeth darawiadol ar y testyn yn nghapel Renshaw-street, a'r dydd Gwener y Groglith canlynol cynnaliwyd cyfarfod cyhoeddus, dan lywyddiaeth Mr. William Rathbone, tad yr Aelod Seneddol presennol dros Ranbarth Arfon, a sefydlwyd "Cenadaeth Deuluaidd" yn Llynlleifiad. Ni roddaf hanes y mudiad am yr hanner canrif cyntaf o'i fodolaeth, er mor ddyddorol fyddai hyny. Digon yw dweyd fod canoedd lawer o deuluoedd wedi eu bendithio yn dymhorol ac ysprydol yn ystod y cyfnod hwnw. Hyd yn ddiweddar, yr oedd addysg elfenol yn rhan bwysig o waith y "Genadaeth;" ond yn awr, pan y gofala y Llywodraeth am wrtaith meddyliol y genedl, cyfynga y pwyllgorau lleol eu hymdrechion yn benaf i ddiwylliant moesol ac ysprydol. Ymsefydlodd Mr. Lloyd-Jones fel prif weinidog yr achos tua deg mlynedd yn ol, ac mae ef a'i gynnorthwywr, y Parch. Joseph Anderton, wedi gwneyd eu gwaith yn rhagorol. Yn fuan ar ol i'm cyfaill ymgymmeryd â'r achos telais ymweliad ag ef, a chefais y mwynhad o ddweyd ychydig eiriau mewn cyfarfod dirwestol yn yr hen ysgoldy, yn Beaufort-street. Yn y cyfamser, darfu i'r gwahanol gangenau o'r gwaith gynnyddu i'r fath raddau, fel y gorfodwyd y pwyllgor arianol barotoi cartref helaethach a mwy cyfleus mewn ardal fwy eang a chyfaddas. Y canlyniad fu i'r adeilad hardd presennol, yn Mill-street, gael ei agor yn mis Tachwedd diweddaf. Mae yn addurn i'r ddinas, ac yn dystiolaeth gref o ymddiried llwyraf Undodiaid y lle yn ein cydwladwr. Costiodd tuag wyth mil o bunnau, ac ni chyfranwyd y cyfryw swm erioed at achos gwell. Cynnwysa yr adeilad gapel hardd, a neuadd, lle cynnelir pob math o gyfarfodydd er gwrteithio chwaeth y bobl, a lle yr ymgynnulla plant yr Ysgol Sul, oddigerth y babanod. Mae yno hefyd nifer fawr o ystafelloedd lle yr addysga yr athrawon eu dospeirth—festri, llyfrgelloedd, a chyfleusderau ereill. Rhoddais anerchiad byr i dros 500 o blant yno prydnawn Sul. Canent yn hwylus dros ben, ac ni allwn lai na meddwl am eiriau y Salmydd:—"O enau plant bychain y perffeithiaist foliant." Nos Lun, cefais yr hyfrydwch o fod yn bresennol mewn cyfarfod dirwestol o natur adloniadol, a galwyd arnaf i anerch torf o dros 500, gan mwyaf pobl mewn oed. Yr oedd yn olygfa hynod hoff i mi i weled meibion a merched prif deuluoedd y ddinas yn canu a chwareu offerynau cerdd er mwyn gwneyd bywyd eu brodyr a'u chwïorydd tlodion yn felusach a phurach. Ymwela boneddigesau ieuainc yn rheolaidd âg anneddau y tlodion yn mharthau mwyaf peryglus y ddinas, a dygant oleuni a gobaith i lawer enaid yn nghaethiwed pechod. Ychydig amser yn ol cafodd etifeddes ieuanc gyfoethog y frech wen drwy ei gwaith yn ymweled â'r tlodion yn eu hangen a'u blinder. Gallai y bobl ieuainc hyn

dreulio eu hamser yn wahanol iawn pe dymunent. Gallent gymmeryd rhan bwysig yn y byd ffasiynol. Ond gwell ganddynt gyflwyno "blaenffrwyth boreu eu hoes" i waith yr Arglwydd. Bendith y Nefoedd fo ar eu penau! Un o agweddau mwyaf boddhaol y gwaith da yw ei fod yn cael ei gario yn mlaen mor galonog a siriol. Treiddia dylanwad y gweithwyr ieuainc yn y winllan fel arogl peraidd drwy y cartrefi yr ymwelant a hwynt, a thŷf blodeu rhinwedd yn ôl eu traed ble bynag yr ânt. Tybiaf na sonir yn fynych am y farn ddiweddaf a chospedigaeth yr annuwiol; ond dywedir llawer am gariad y Tad Nefol. Ni fawrygir rhinwedd gwaed yr Iesu fel moddion i achub pechaduriaid; ond siaradir yn fynych am ei esiampl a'r dyledswydd i'w chanlyn.

Mae oddeutu 700 o blant yn yr Ysgol Sul, ac yr wyf yn credu fod Mr. Lloyd Jones yn eu hadnabod oll wrth eu henwau. Mae y bugail da yn adwaen ei ŵyn. Dywedodd cyfaill wrthyf fod holl fabanod y gymmydogaeth "o ddwy flwydd oed a than hyny" yn gwênu yn mreichiau eu mamau pan y gwelant ef yn myned heibio! Ceisia fod o ryw gynnorthwy i bawb a ddeuant dan ei ddylanwad, a dyna yw natur y gwaith am yr hwn y cawn glywed y geiriau groesawus—"Da was, da a ffyddlawn."

Awst 24*ain*, 1893. E. Ceredig Jones.

YN DYSGWYL DRAW.

'Rwyf eisoes wedi cyrhaedd pen y bryn,
  A bellach bron d'od lawr hyd "swn yr afon;"
Yn flin fy nghamrau, ni chaf oedi dim,
  Mae'r llong ar hwylio—minau'n drwm fy nghalon.
Ond buan, buan, mi gaf siglo llaw
Anwyliaid wedi blaenu—yr "ochr draw."

'Rwy'n syllu'n awr, tra'n sefyll ar y lan,
  'Rwy'n gwel'd y bad, yn clywed "swn y rhwyfau;"
Ychydig oriau, 'chydig gamrau'n hwy
  A phasio wnaf trwy ddyffryn du'r cysgodau.
Pan ddel yr awr, pwy'n dysgwyl yno fydd,
I'm arwain trwy y porth i "wlad y dydd?"

'Rwy'n nesu at y llinell rhwng dau fyd,
  Ac ar fy ael mae awel ffres yn chwythu,—
Ffres awel oddiwrth ruthr lluoedd traed
  Cyfeillion hoff yn brysio i'm croesawu.
Maent yno yn tyru—yr hoff gyfeillion braf—
Yn f' aros maent ar faesydd "Gwlad yr Haf."

Mae'r byd yn hardd, a charu aros wnawn,
Nes d'wedo'r Athraw, Da, was da, a ffyddlon:
Fy ngwaith ar ben, a minau, yn hwyr fy nawn,
Tua gwlad machludiad haul yn cyflym frysio.
'Nawr am gyffyrddiad "anweledig law,"
'N rhoi amnaid im' o "wlad y bore" draw!

Awst 31, 1893. T.C.U.

[*Unity*, August 3, 1893.]

EGLWYS EIN TAD.*

YR ANGEN.

MAE nifer o ysprydoedd cydnaws, yn cael eu hysprydoli gan yr un hiraeth, wedi cael eu harwain, trwy wahanol lwybrau, i weled gwirionedd ag mae'r Eglwys a'r byd mewn dygn angen am dano; a chredant fod eu meddyliau hwy heddyw yn feddyliau corff lluosog o bobl yn mhob eglwys, ydynt yn edrych yn hiraethus dan a thu hwnt i gredoau a defodau am sylfaen arosol a chyffredinol eglwys, ac a fydd ar yr un pryd yn ddynol ac yn Ddwyfol.

Dengys hyd y nod yr enwau sydd yn nodi y gwahanol eglwysi natur ac angen y gwirionedd dyfnach hwnw. "Catholig Rhufeinig," "Esgobyddol," "Sefydledig," "Presbyteraidd," "Cynnulleidfaol," "Bedyddiedig," "Wesleyaidd," "Undodaidd," &c.: nid yw un o'r rhai hyn yn myned i lawr at y pethau dyfnaf, nid yw un o honynt yn dwyn tystiolaeth i'r uchaf. Dygant enw rhyw awdurdod ddaearol, rhyw swyddog, Gweithred Seneddol, cynghor, cymdeithasfa, defod, dyn, athrawiaeth unigol, neu osodiad nacaol. Nid ydynt yn tystiolaethu i'r Tad. Byddai y syniad perffaith yn cael ei sylweddoli pe bai'r holl eglwysi yn cael eu huno yn un frawdoliaeth, a'r oll yn cydnabod Tadoldeb perffaith. Ond nis gall hyny fod. Y peth a all fod yw hyn;—cymdeithas yn cael ei ffurfio a fyddai yn dwyn tystiolaeth i'r gwirionedd hwn, ac unig amcan yr hon fyddai gosod y gwir syniad hwn am eglwys o flaen y byd. Nis gall yr eglwysi cyffredin wneyd hyn. Rhwystrir hwy gan Ddeddfau Seneddol, gan weithredoedd cyfreithiol, gan gredoau llychlyd, gan ddefodau, gan draddodiadau ac arferion. Angen yr awr hon yw "dinas ar fryn," yn taflu ei goleuni i bob cyfeiriad, ac yn dal i fyny yn ei lewyrch y gwirionedd hwnw ein bod ni oll yn un yn y Tad: oddiwrth yr hyn mae'n canlyn nad yw sectau a chredoau ar y goreu ddim ond ychydig o'r drysau culach hyny trwy y rhai y dichon i ni basio yn mlaen at y Tad, ac nad yw ei wir Eglwys Ef, mwy nâ'i wir deyrnas, ddim yn ddarostyngedig i ddwylaw dynol nac yn weledig gan lygaid dynol.

Y gwir enw, ynte, am yr Eglwys Berffaith, gobaith y dyfodol, yw "Eglwys ein Tad." Onid yw'r enw yn cyffwrdd â llinynau tyneraf y galon? Onid yw ynddo ei hun yn wahoddiad sydd yn denu, yn efengyl sydd yn profi ei hun, ac yn gyffes ffydd ddigonol at bob angen?

Wrth osod o flaen y byd heddyw mewn ffurf sylweddol Eglwys ein Tad, ni feddylir wrth hyny awgrymu nad oedd yn bodoli o'r blaen. Mae Eglwys

---

* Cyfieithwyd a ganlyn gan y Parch. W. James, B.A., Landyssul, ar gais y Parch. J. Page Hopps, sylfaenydd "Eglwys ein Tad." Pan y cwblheir y cyfieithad yn YR YMOFYNYDD, cyhoeddir ef yn draethodyn, a bydd copïau i'w cael oddiwrth Mr. Hopps.

ein Tad, mewn gwirionedd, wedi bodoli erioed—hyd y nod pan oedd y rhai a alwent eu hunain ar ei enw yn taflu allan ac yn erlid y naill y llall. Mae i'w chael yn mhob eglwys, ond ni chyfyngir hi y tu fewn i derfynau un o honynt; ac iddi hi y perthyna pob bod dynol sydd yn caru gwirionedd, cyfiawnder, a dynoliaeth: oblegyd mae pawb ydynt yn fyw i ddylanwadau y galluoedd nefol yn wir addolwyr a addolant y Tad mewn yspryd a gwirionedd—hyd y nod pe na fyddent yn credu yn y Tad, yr Hwn a wasanaethant heb yn wybod iddynt.

Y DYSTIOLAETH.

Mae EGLWYS EIN TAD yn sylfaenedig ar y Saith Egwyddor Arweiniol a ganlyn, a'r cymhwysiad ymarferol o honynt; er nad yw ei haelodau yn cael eu rhwymo i'w derbyn yn llwyr ac yn llythyrenol.

Tadoldeb Duw, yr hwn yw y bywyd mewnol sydd yn derchafu pob peth.
Brawdoliaeth dyn, er mwyn cydymdeimlad a gwasanaeth.
Dadblygiad a blaenfynediad diderfyn yr hiliogaeth ddynol trwy ymdrech a buddugoliaeth, trallod a llawenydd, marwolaeth a bywyd.
Sefydliad Teyrnas Nefoedd yn mhob man ar y ddaear.
Cydnabyddiaeth galonog y byd "tymhorol" (secular) *fel yn cynnwys pob peth cyssegredig.*
Ysprydoliaeth barhaus dyn gan Dduw.
Cymundeb gwastadol ysprydoedd cydnaws yn a chydrhwng yr anweledig a'r gweledig.

Nid yw eglwys sydd yn sefyll dros y gwirioneddau hyn yn awgrymu sect newydd, ond i'r gwrthwyneb. Awgryma gymdeithas o ysprydoedd cydnaws, gwaith y rhai yw dwyn tystiolaeth i ffeithiau a gwirioneddau cyffredinol, a galw sylw yr eglwysi at yr hyn sydd wrth galon pob un o honynt, ac efallai eu cymhell a'u calonogi i fyned y tu hwnt i hen bethau sydd wedi eu gordyfu at bethau bywiol ac hanfodol. Mae sect yn ffrwyth yspryd sydd yn rhanu neu yn condemnio, ond nid yw yn bossibl i Eglwys ein Tad fod byth yn sect tra yr erys yn unig i ddwyn tystiolaeth i wirioneddau cyffredinol, ac i daflu goleuni ar y pethau dyfnaf hyny sydd yn uno â'u gilydd ysprydoedd duwiolfrydig yn mhob sect. Ni ddarfu i'r Iesu sylfaenu sect newydd pan yr aeth efe a'i ddysgyblion y tu allan i eglwys sefydledig ei amser, i osod ar glawr ei Wynfydau, ac i ddysgu'r byd mai nid yn Jerusalem yn unig y dylai'r Tad gael ei addoli, ond yn mhob man "mewn yspryd a gwirionedd." A hyn (yn wrthwynebol fel ag y mae i sectyddiaeth) yw tystiolaeth Eglwys ein Tad.

YR EGLURHAD.

TADOLDEB DUW, YR HWN YW Y BYWYD MEWNOL SYDD YN DERCHAFU POB PETH.

Duw ynddo ei Hun nis gellir ei adnabod, er y dichon i'w Dadoldeb gael ei adnabod. Mae Tadoldeb Duw yn arwyddlun daearol o sylwedd nefol. Wrth y geiriau hyn, "*Tadoldeb Duw,*" yr ydym yn golygu fod y gallu dirgelaidd Hollalluog, sydd yn cynnyrchu pobpeth, yn ofalus a thrugarog; a phan y bydd ein holl ddamcaniaethau a'n dychymygion tywyll wedi eu gordyfu, y bydd ymddiried yr yspryd dynol yn ewyllys a thrugaredd y Gallu hwn yn aros fel dechreuad a diwedd pob gwir grefydd. Y peth mwyaf gwir allwn ni ddweyd am Dduw yw, mai "yddo Ef yr ydym yn byw, yn symmud, ac yn bod,"

ac mai Efe, mewn canlyniad, yn yr ystyr dyfnaf, yw "Ein Tad." Ni ddatguddir Ef yn gyflawn mewn unrhyw lyfr, na chredo, nac eglwys, ond Efe yw y perffaith o hyd, y goreu yn mhobpeth yn mhobman, y Creawdwr nad yw yn hepian, "y bywyd mewnol sydd yn derchafu pob peth."

BRAWDOLDEB DYN ER MWYN CYDYMDEIMLAD A GWASANAETH.

Mae dynolryw yn un amlygiad o eiddo Duw, yn dyfod i fyny, yn nghyflawnder yr amser, o ffurfiau is o fywyd, ac yn cyrhaedd, trwy gynnydd araf, elfenau parch a hiraeth ysprydol, cydymdeimlad a hunan-aberth, gwelediad ysprydol i ystyr bywyd a'r ymwybyddiaeth o bresennoldeb dirgelaidd "Ein Tad." Gwna yr anian newydd hon, yn y diwedd, orchfygu creulonderau personol a gelyniaethau cenedlaethol, a dwyn oddiamgylch y gwareiddiad perffaith sydd yn golygu dim mwy a dim llai nâ'r gelfyddyd o fyw gyda'n gilydd "er mwyn cydymdeimlad a gwasanaeth." Mae gwasanaeth Dyn yn awgrymu rhag-gynllun o fywyd i amcanu ato, er na ddichon neb ei gyrhaedd byth yn gyflawn. Mae mewn ffyrdd amrywiol yn bossibl i bob dyn —i'r prynwr a'r gwerthwr; i'r meistr a'r gwas; i'r plentyn bach sydd ganddo faban i ofalu am dano, yn gystal ag i'r brenin sydd ganddo deyrnas i lywodraethu. Yma mae bywyd yn ei bossiblrwydd Dwyfol, ac yma y cawn ni gipolwg ar yr Eglwys Gyffredinol sydd etto i ddyfod.

DADBLYGIAD A BLAENFYNEDIAD DIDERFYN YR HILIOGAETH DDYNOL, TRWY YMDRECH A BUDDUGOLIAETH, TRALLOD A LLAWENYDD, MARWOLAETH A BYWYD.

Mae gan athrawiaeth fawr Dadblygiad ei chymhwysiadau dwfn ysprydol. Pan y deallir hi yn briodol, deuir i gydnabod ei bod hi yn arwydd o'r un peth ag athrawiaeth Paul yn nghylch "awyddfryd y greadigaeth" sydd "yn cydocheneidio ac yn cydofidio" ac "yn dysgwyl am ddatguddiad meibion Duw;" neu â dywediad boll-bwysig Ioan, "Anwylyd, yr awr hon meibion i Dduw ydym, ac nid amlygwyd etto beth a fyddwn; eithr ni a wyddom, pan ymddangoso Efe, y byddwn gyffelyb iddo; oblegyd ni a gawn ei weled Ef megys ag y mae." Nid yw dyn etto wedi ei greu; mae ar y ffordd i gael ei greu, a moddion ei greadigaeth yw ymdrech a buddugoliaeth, trallod a llawenydd, marwolaeth a bywyd. Mae gan y geiriau diweddaf hyn ystyr sydd yn myned yn mhell iawn. Nid yw yr hyn a alwn ni yn farwolaeth, mewn gwirionedd, yn ddim ond cam yn mlaen yn nghreadigaeth dyn; a bydd y bywyd a arweinia iddo yn cario yn mlaen waith gogoneddus ei ddadblygiad. Mewn un ystyr, ac yn yr ystyr ddyfnaf, rhaid ei bod yn fantais i bob un i "farw;" oblegyd nid yn unig "y gelyn diweddaf a ddinystrir yw yr angeu;" ond angeu hefyd yw yr angel diweddaf gwybyddus i ni a'n prysura ni yn mlaen ar ein ffordd—y cam diweddaf ar lwybr mawr dadblygiad a'n rhyddha ni mewn gwirionedd.

SEFYDLÌAD TEYRNAS NEFOEDD YN MHOB MAN AR Y DDAEAR.

Mae'r amser wedi dyfod oddiamgylch yn gyflawn erbyn hyn i edrych am Grefydd yn cael ei sylweddoli mewn bywyd cyffredin, ac i ddysgu y dylai ffrwythau goreu bywyd yr eglwys ddyfod i'r golwg, nid yn yr eglwys, ond yn y byd. Y nod

uwchaf ydyw taflu pobpeth i'r ystôr gyffredin, a chael gafael ar deyrnas Dduw yn yr heolydd neu ei sylfaenu yno. Rhaid i'w deyrnas Ef ddyfod ar y ddaear, megys y mae yn y nefoedd, fel y byddo egwyddorion ac yspryd y deyrnas hono yn ymledu o fwthyn y gweithiwr hyd ymyl gorsedd y brenin. Ni ddylai dim yn y bywyd dynol gael ei ystyried fel yn gorwedd y tu allan i gylch teyrnas ein Tad; ie, yn hytrach, yma yn Eglwys ein Tad, fel mewn man arall, "y diweddaf a fyddant flaenaf." Mae gan Deyrnas Nefoedd i wneyd â phobpeth ag mae gyda ni i wneyd ag ef—â gwaith a dyfyrwch, â myfyrgell brydferth y bardd, â chartref digysur y tlotty; â maesydd hyfryd y wlad yn gystal ag heolydd culion ein dinasoedd; a dwyn goleuni a chyfiawnder, gobaith a chydymdeimlad, purdeb a dynoliaeth, i gylchoedd anhyfryd caledi ac ymdrech—ie, yn mhob man—dyna ydyw rhan werthfawr o'r gwir syniad am Eglwys ein Tad.

CYDNABYDDIAETH GALONOG Y BYD TYMHOROL *(secular)* FEL YN CYNNWYS POB PETH CYSSEGREDIG.

Mae'r amser wedi dyfod oddiamgylch yn gyflawn erbyn hyn i daflu ymaith yn dyner ond yn benderfynol, neu basio'r ochr arall heibio i bethau rhith-sanctaidd yr eglwys—ei hallorau a'i chroesau, personau a lleoedd sanctaidd, defodau achubol, corff a gwaed Iesu Grist mewn ffurfiau anianol. Allorau mwyaf gwirioneddol y byd yw y byrddau ar y rhai mae dynion a benywod yn gosod eu bara beunyddiol sydd wedi ei ennill yn onest a'i ddefnyddio yn felus; y *counters* ar y rhai mae trafnidaeth byd Duw yn cael ei gario yn mlaen mewn cyfiawnder; y gweithfaoedd, y gerddi, a'r meusydd y cynnyrchir yr hyn sydd yn porthi ac yn dilladu plant Duw; yr ysgoldai lle mae'r meddwl yn cael ei ddysgyblu i bwyso, cymharu, a deall; a'r seneddau a'r llysoedd lle mae deddfau da yn cael eu gwneyd, a chyfiawnder yn cael ei weinyddu. Dyledswyddau, gorchwylion, ac ymdrechion ein bywyd cyffredin yw pethau mwyaf gwir sanctaidd y byd a'r datguddiadau mwyaf eglur o fwriadau Duw. Mae eu hamcan wedi bod i arwyddluniau yr eglwys, ac hyd y nod i'w chredoau hynafol, ac fe ddichon fod iddynt eu hamcan heddyw, ond nid ydynt yn wir fara'r bywyd—nid hwy yw y pethau dyfnaf a mwyaf sanctaidd mewn bywyd.

(*I'w barhau.*)

NODYNAU GWASGAROG.

MR. GOL.,—Mae yn dda genyf hyspysu darllenwyr YR YMOFYNYDD fod hadau Undodiaeth yn cael eu hau yn gyflym yn Nghwm Rhondda, yn enwedig yn Nhreorci. Cawsom bregeth dda ar y Sabboth, Medi 9fed, gan Dr. Griffiths, Pontypridd, oddiar Exodus xiv. 15, "A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Moses, Paham y gweiddi arnaf? dywed wrth feibion Israel am gerdded rhagddynt." Dangosodd Mr. Griffiths fod yn rhaid i bob dyn wneuthur ei ran, ac fod Duw yn gwneuthur yr hyn na allwn ni ei wneuthur. Dyledswydd yr Israeliaid oedd myned

rhag eu blaen, ac ymddiried yn eu Duw fel eu Gwaredwr; a dywedodd Mr. Griffiths mai ein dyledswydd ninau, fel Undodiaid, oedd myned rhag ein blaen yn ddiofn. Credai ef fod llais Duw wedi dyfod at yr Undodiaid y dyddiau presennol, gan eu cymhell i fyned rhag eu blaen, ac mai syniadau ac egwyddorion crefyddol yr Undodiaid sydd i fod dros yr holl fyd; fod llais Duw yn gwaeddu yn uchel ar yr Undodiaid, y dyddiau presenol, i ddod at eu gwaith. Da genym hyspysu fod dosparth Feiblaidd wedi ei gychwyn eisoes. Ymddangosai i mi fod yspryd y gwirionedd yn teyrnasu, ac fod pob un yn feddiannol arno. Yr oeddwn I yn edrych ar y Dr.—fel yr Apostol Paul—wedi ei alw i fod yn apostol i'r Undodiaid, ac wedi ei neillduo i efengylu Efengyl Duw i'r cenedloedd.

Etto, Mr. Gol., mae yn rhaid i mi, fel un sydd yn credu mewn Undodiaeth, gyfaddef ein bod ni yn hynod o ddiymdrech mewn materion ysprydol. Nid ydym yn barod i wneyd unrhyw beth yn absenoldeb y gweinidog: os na fydd y pregethwr yn bresennol, ni fydd neb yn meddwl cynnal cyfarfod, a thrwy hyny, yr ydym ni yn mhell ar ol y brodyr ereill. Yr wyf fi yn meddwl y dylem ymarferyd ein hunain i ddarllen a gweddio yn gyhoeddus, i ddechreu y cyfarfodydd, ac i gynnal cyfarfodydd gweddi yn absenoldeb y gweinidog. O herwydd y diffyg hwn, y mae yr yspryd a'r duedd i addoli sydd ynom yn oeri ac yn myned yn ddim. J.J.,T.

I'R MERCHED IEUAINC.

Pan ddarfu Philip Henry, tad yr esponiwr, geisio llaw unig ferch Mr. Matthew mewn priodas, gwnaeth ei thad wrthwynebiad. Addefai ei fod yn foneddwr, yn ysgolaig, ac yn bregethwr da, 'ond na wyddent o ba le yr oedd wedi dod.' 'Gwir,' ebe'r ferch, yr hon oedd wedi pwyso rhinweddau a grasusau y gwr dieithr, 'ond yr wyf fi yn gwybod i ba le mae'n myned, ac mi garwn fyned gydag ef;' a hwy a rodiasant daith bywyd gyda'u gilydd.

GENETH DDUWIOL.

Yr oedd Morgan Rowe, diacon capel bychan yn Connecticut, U.D.S. yn dirfeddianydd helaeth, o gymeriad da, ond hynod biniwngar mewn rhai pethau. Adroddir hanes ei garu fel y canlyn:—Un diwrnod, cymerodd ei geffyl o'r ystabl. Aeth ar gefn, a dim ond croen dafad yn lle cyfrwy. Aeth i fyny at dŷ Betty Lee, ac heb ddisgyn oddiar ei geffyl, curodd wrth y drws a cheisiodd gan Betty ddyfod ato. Daeth Betty yn ufudd, a dywedodd Morgan fod yr Arglwydd wedi ei

anfon ef yno i'w phriodi. Attebodd Betty hithau 'Ewyllys yr Arglwydd a wneler!'

BWYD UN DYN.

Mae M. Soyer, o'r 'Reform Club,' Llundain, yn dywedyd y medr dyn yn ystod triugain mlynedd a deg ei fodolaeth, fwyta 30 ych, 200 o ddefaid, 100 llo, 200 o ŵyn, 50 o foch, 2,220 o ieir, 1,000 o bysgod o wahanol fathau, 30,000 o oysters, 5,475 pwys o lysiau, 250 pwys o ymenyn, 24,000 o wyau, 9,000 pwys o fara. Gwnai'r oll bwyso 50 tynell. Dyger yr oll ger bron eich bachgen bach a gofynwch iddo ei farn am y gwaith sydd o'i flaen.

CHANNING YN YR YSGOL.

Yr oedd rhyw brydferthwch disglaer oddeutu y bachgen Channing, ei fochau glan, ei wallt goleu yn hongian yn gudynau ar ei ysgwyddau. Yn ysgol yr hen wraig lle derbyniodd elfenau cyntaf addysg, yr oedd yn hynod am ei ddaioni. 'Mi garwn yn fy nghalon,' meddai ei feistres wrth fachgen afreolus, 'pe buasech yn debyg i William Channing.' 'Oh,' meddai hwnw druan yn atteb, 'ni alla' i ddim bod yn debyg iddo fe; nid yw yn hanner mor anhawdd iddo fe fod yn dda ag i mi.'

AMSER GWELY.

"Foneddigion, yr ydw i'n bedwar ugain a deg oed. Yn ol cwrs amser, rhaid i mi fyned yn fuan. Mae wedi ymddangos i mi lawer pryd yn ddiweddar fel pe byddwn yn clywed llais fy mam, yn llefaru wrthyf megys pan oeddwn blentyn, ac yn dywedyd, 'Dos Peter, y mae bron yn amser gwely.'"

Defnyddiwyd y geiriau cyffrous uchod gan Peter Cooper, y miliwnydd enwog, mewn ciniaw a roddwyd mewn anrhydedd ychydig wythnosau cyn ei farwolaeth.

YN BAROD Y TRO NESAF.

Rai blynyddau yn ol yr oedd y Duc Wellington yn eistedd wrth y bwrdd yn ei lyfrgell, pan agorodd y drws, ac heb un rhybudd dyna rywun a golwg hyll ddigon arno yn dyfod i mewn.

"Pwy ydych chi?" ebe'r Duc, yn edrych i fyny, ac heb welwi na newid dim.

"Myfi yw Apolyon, ac wedi fy ngyru yma i'ch lladd chwi."
"Fy lladd i? Od iawn."
"Myfi yw Apolyon, a rhaid i mi eich gosod i farwolaeth."
"Oes rhaid heddyw?"
"Ni ddywedwyd y dydd na'r awr wrthyf; ond rhaid i mi gyflawni fy nghenadwri."
"Mae'n anghyfleus iawn yn bresennol. Mae genyf waith mawr, amryw lythyron i'w hysgrifenu. Galwch eto, neu ysgrifenwch—ac mi fyddaf yn barod i chwi."

Aeth y Duc yn mlaen gyda'i ohebiaeth. Tarawyd y gwallgofddyn, yn debyg, â math o syndod a braw, wrth weled yr hen wr mor dawel a digyffro, trodd ei gefn ac aeth allan o'r ystafell, ac yn mhen hanner awr yr oedd yn y gwallgofdy.

GWEITHIO NID BREUDDWYDIO.

Nid yw athrylith diwaith, diymdrech, ddim yn athrylith, ebe Emerson, ddim yn athrylith yn fwy nag yw pecaid o fes yn allt o goed. Fe ddichon fod awdlau neu gywyddau yn ymhenyddiau dynion, yn debyg fel mae derw mewn mes; ond rhaid yw i'r goeden a'r llyfr ddyfod allan cyn y gallwn eu mesur. Pa filoedd o ddynion a garent fyned i'r gwely yn glwpanod (*dunces*) a deffroi yn Solomoniaid! Yr ydych yn medi yr hyn yr ydych wedi ei hau. Y sawl ydynt yn hau hadau clwpanod, neu hadau pechod, neu hadau diogi, y maent yn y cyffredin yn cael crop. Nid yw dyn o "alluoedd heb eu dadblygu" ond breuddwyd goleu dydd wedi ei wisgo mewn croen.

Mewn cynnulliad o brif enwogion gwahanol enwadau crefyddol Lloegr a gynnaliwyd ar y cyfandir yn ddiweddar, buwyd yn siarad ar y dymunoldeb o fod mwy o undeb a chydweithrediad rhyngddynt. Dywedodd Mr. Hugh Price Hughes na ddylid gadael i Undodiaid uno â hwy mewn un modd; ac etto, y dydd o'r blaen, yr oedd Mr. Hughes yn dweyd y dylai yr eglwysi dalu mwy o sylw i'r syniad o frawdoldeb dyn.

Ar dudalenau'r Ymofynydd Saesneg, (yr *Inquirer*) yn ddiweddar, mae amryw lythyrau dyddorol iawn gan bersonau ydynt wedi ymuno â'r enwad Undodaidd oddiwrth enwadau ereill, yn desgrifio'r *ennill* a'r *golled* oedd hyny wedi achosi iddynt. Diamheu fod llawer o bersonau o'r fath yn Nghymru. Ai ni fyddai llythyrau byr a phwrpasol oddiwrthynt yn ddyddorol ac yn dderbyniol gan ein darllenwyr?

Agorwyd Senedd y Crefyddau yn Chicago ar yr 11eg o Fedi. Parhaodd am 17 o ddiwrnodau. Yn ystod y dyddiau hyn siaredir ar wahanol grefyddwyr y byd gan gynnrychiolwyr perthynol i'r crefyddau hyn. Cynnrychiolir Undodiaid Lloegr gan y Parch. S. A. Steinthal, Manchester. Bydd cynnrychiolwyr oddiwrth y crefyddau tu allan i Gristionogaeth. Nid oes amheuaeth na wneir llawer iawn o les trwy'r cyfarfodydd hyn. Mae anwybodaeth yn gyfrifol am lawer o'r gwahaniaethau sydd yn y byd heddyw; a thrwy symmud yr anwybodaeth daw dynion i ddeall eu gilydd yn well.

Ychydig amser yn ol cyhoeddwyd llyfr gan babydd o'r enw Dr. Mivart ar *Ddedwyddwch yn Uffern.* Wrth gwrs, yr oedd y fath syniad yn heresi beryglus iawn yn ngolwg yr awdurdodau. Yn ddiweddar condemniwyd y llyfr gan yr awdurdodau hyn yn Rhufain fel un peryglus, ac un na ddylai un Pabydd ei ddarllen na'i gadw yn ei feddiant; ac yn ben ar y cwbl, mae'r awdwr wedi edifarhau am yr hyn a ysgrifenodd, ac wedi tynu yr oll a ddywedodd yn ei lyfr yn ol. Onid yw yn wael fod dyn o safle'r Dr. yn darostwng ei hun i gaethiwed fel hyn? A ydym ni, fel Undodiaid, yn gwerthfawrogi ein rhyddid fel y dylem?

Mewn nodyn arall sylwyd fod holl grefyddau y byd yn cael eu cynnrychioli yn Senedd y Crefyddau yn Chicago. Nid yw hyn yn hollol gywir. Nid oes yno neb yn ateb dros Eglwys Sefydledig Lloegr. Gwrthododd yr Archesgob yn bendant appwyntio neb i fyned drosodd i gynnrychioli yr Eglwys ar yr hon y mae efe yn ben, am y rheswm y buasai hyny yn darostwng yr Eglwys i'r un *level* â'r crefyddau ereill. Clywid cryn dipyn o son ychydig yn ol gan amryw o'r prif ddynion perthynol i'r Eglwys am aduniad (*re-union*). Gwelwn yn awr mai'r unig aduniad sydd yn bossibl, yn ol barn yr Eglwyswyr, yw fod pob un yn gadael ei grefydd ei hun, ac yn uno ag Eglwys Loegr. Os felly, nid tebyg y sylweddolir y dymuniad yn fuan.

OFERGOELEDD PABYDDOL.

Pan yr oedd y Diwygiad ar waith yn Lithuania, cyffrowyd y Tywysog Radzivil gymmaint fel yr aeth yn bersonol i dalu i'r Pab bob gwarogaeth bossibl. Cyflwynodd Ei Sancteiddrwydd iddo ar yr achlysur hwn flwch gwerthfawr o greiriau. Wedi i'r tywysog ddychwelyd adref, erfyniodd rhyw fynachod ei ganiatad i brofi effeithiau y creiriau hyn ar ddyn "a chythraul ganddo," yr hwn hyd hyny oedd wedi gwrthod cymmeryd ei "fwrw allan." Dygwyd hwy i'r eglwys gyda rhwysg difrifol, a gosodwyd hwy ar yr allor. Ar ol yr ymdrechion arferol i fwrw allan y cythraul, y rhai oeddynt yn aflwyddiannus, cymhwysasant

y creiriau. Gwellhaodd y cythreulig yn union. Llefodd y bobl allan, "Gwyrth! gwyrth!" a chododd y tywysog ei ddwylaw a'i lygaid tua'r nefoedd, gan deimlo ei ffydd yn cael ei chadarnhau. Yn y llawenydd mawr hwn sylwodd fod dyn ieuanc, yr hwn oedd ceidwad y blwch creiriau, yn gwenu, a chydag ystumiau yn diystyru y "wyrth." Cymmerodd y tywysog yn ei lid y ceidwad ieuanc i gyfrif, a rhoddodd hwnw, ar addewid o faddeuant, yr hyspysrwydd dirgel hwn yn nghylch y creiriau. Wrth deithio o Rufain yr oedd wedi colli y blwch creiriau; ac o ofn nodi'r ffaith wrth ei feistr, yr oedd wedi prynu un tebyg, a'i lanw ag esgyrn bychain cwn a chathod, a manion ereill cyffelyb i'r rhai a gollasid. Gobeithiai y maddeuid iddo am wenu pan y cafodd allan fod y fath gasgliad o rwbish yn cael ei addoli gyda'r cyfryw rwysg, ac hyd y nod yn meddu rhinwedd i fwrw allan gythreuliaid.

DR. SMILES.

Gan fod cyfieithu llyfr Dr. Samuel Smiles ar *Self-Help* i'r Gymraeg yn un o destynau cystadleuol Eisteddfod Genedlaethol 1894 yn Nghaernarfon, nid annyddorol, efallai, fyddai ychydig ffeithiau am dano. Y mae wedi cael bywyd cyfnewidiol, wedi bod yn feddyg gwlad, yn olygydd newyddiadur, ac yn ysgrifenydd cwmni cledrffordd. Cynnygiwyd llawysgrif ei waith mwyaf poblogaidd i Mri. Routledge, ond dymchwelwyd y fasnach lyfrau gan Ryfel y Crimea, a gwrthodwyd y gyfrol. O'r diwedd, dygwyd hi allan gan Mr. Murray, ac o fewn y flwyddyn gwerthwyd 20,000 o gopïau o hono. Er y pryd hwnw y mae wedi ei gyfieithu i yn agos holl ieithoedd Ewrop, ac wedi symbylu miloedd o ddynion ieuainc gartref ac oddicartref. Er calondid i'r rhai hyny sydd yn gwneyd cychwyniad araf ac anhawdd, gellir dweyd ei fod ef yn bump a deugain oed cyn cyrhaedd unrhyw lwyddiant mewn awduriaeth.

YSTADEGAU AM DY Y CYFEREDIN.

		Aelodau.
Lloegr a Chymru.		
23 o Siroedd mewn 253 o Adranau	253	495
143 o Ddinasoedd, Bwrdeisdrefi, &c., mewn 215 o Adranau	237	
3 Prif Ysgol	5	
Scotland.		
34 o Siroedd mewn 39 o Adranau	39	72
7 o Ddinasoedd a Threfi	18	
13 o Ddospeirth Bwrdeisdrefi	13	
4 Prif Ysgol	2	
Iwerddon.		
32 o Siroedd	85	103
9 o Ddinasoedd a Bwrdeisdrefi	16	
1 Brif Ysgol	2	
Cyfanrif		670

MR. WALTER D. JEREMY, M.A., J.P.

Gyda gofid yr ydym yn gorfod cofnodi marwolaeth y gwr enwog ac adnabyddus hwn, yr hyn a gymmerodd le yn ei breswylfod yn Hampstead, Llundain, dydd Llun, Awst 18, yn 69 mlwydd oed. Yn mysg Undodiaid Cymru, yr oedd enw Mr. Jeremy yn dra chyfarwydd, a chan bob dosparth coleddid y teimladau gwresocaf tuag ato fel boneddwr, a'r syniadau uwchaf am ei alluoedd a'i fedr yn ei alwedigaeth. Hanai o deulu urddasol ag y mae ei hanes yn gymhleth ag hanes Undodiaeth, yn enwedig yn Sir Aberteifi, oblegyd bu ei dad—y Parch. John Jeremy, yn weinidog parchus am flynyddau yn Nghaeronen, ac mae coffa anwyl am dano hyd y dydd hwn. Derbyniodd Mr. Jeremy ei addysg yn Nghaerfyrddin, ac wedi hyny yn mhrif Ysgol Glasgow, lle yr astudiai *Natural Philosphy* dan gyfarwyddyd Syr W. Thompson, a lle y graddiodd gydag anrhydedd yn y Clasuron ac mewn Athroniaeth, yn y flwyddyn 1848. Bwriadwyd ef i'r weinidogaeth, a bu yn pregethu am ryw yspaid, ond nid hir y bu cyn gadael y pwlpud, ac ymgyflwyno i'r gyfraith. Galwyd ef i'r *bar* yn y flwyddyn 1859. Llanwodd swyddi anrhydeddus mewn gwahanol gylchoedd, ac yr oedd yn uchel ei barch gan bawb a'i hadwaenent. Nid hir y goroesodd ei wraig, yr hon oedd yn ferch i'r diweddar Barch. Richard Evans, Abertawy. Gwelir eisieu Mr. Jeremy yn fawr ar y Bwrdd Henadurol, ac mewn manau ereill, lle yr ystyrid ef yn awdurdod ar bynciau yn dal perthynas a Chymru, ac nid bob amser y ceir un all lanw ei le. Claddwyd ef y Iau canlynol, a gwasanaethwyd yn ei angladd gan Dr. Brooke Herford. Heddwch i'w lwch.

MAWL, 6. 5. 12 LLINELL

Ar ein ffordd yn llawen, Ar ein ffordd tua thref,
Gwrando'n clod a'n moliant, Dirion Dad o'r nef,
Oes in' boen neu dristwch? Eiddot Ti nid yw.
Ydy' ein nen dan gwmwl?—Ni ddaw oddi wrth Dduw.
Ar ein ffordd yn llawen, &c.

Os, â chalon onest, carwn Dduw a dyn;
Os, bob dydd, ein ceir ni'n Gwneud ein rhan, bob un,—
Duw, sy'n rhoddi'r Gwanwyn, Rydd in' Hydref llawn,—
Bendith ar ein penau, Hedd i'n calon gawn.
Ar ein ffordd yn llawen, &c.

Ar ei ffordd yn llawen, 'Nawr, pob calon aed;
Gosod wnaeth yr Iesu,'r Gelyn dan ei draed:
Gyda phur lawenydd, A sirioldeb llawn,
Os dros ffydd ymdrechwn, Buddugoliaeth gawn.
Ar ein ffordd yn llawen, &c.

At ein Tad y deuwn, Gyda llawen gan ;
Am ei ofal rhoddwn Ddiolch calon lan ;
O flaen Duw'r Dyddanwch, Plygu'n isel wnawn ;
Ar ein ffordd yn llawen, 'Nawr a byth yr awn.
Ar ein ffordd yn llawen, &c.

T.C.U.
1 Rhagfyr 1892. } J. S. B. MONSELL.

Y MODD Y TRINIR LLYFRWERTHWYR YN RWSSIA.

NID yw treialon llyfrwerthwyr a llyfrgellwyr yn Mhrydain Fawr ddim o'u cymharu â rhai o brofiadau llyfrgellwyr yn Rwssia. Mewn trefn i'r hanesyn canlynol gael ei werthfawrogi, dylid hyspysu yn gyntaf fod y Llywodraeth Rwssiaidd yn ddiweddar wedi cweryla â'r awdurdodau Germanaidd, ac mewn rhai achosion wedi gwahardd dadforiad nwyddau Germanaidd, ac mewn achosion ereill wedi codi y tollau ar y dadforiadau i ffigwr uchel iawn. Mae llyfrau a chylchgronau Seisnig yn myned i fewn i Rwssia yn hawdd ddigon : nid oes ganddynt ond pasio llygad eryraidd y swyddog pennodedig gan y Llywodraeth i archwilio llyfrau, &c., yr hwn sydd yn eu cadw am dymhor fel ag i dori allan bob cyfeiriad at wleidiadaeth Rwssiaidd a gweithrediadau mewnol y Llywodraeth yn gyffredin. Gwyddai un llyfrgellydd Seisnig yn St. Petersburgh am yr annealldwriaethau Germanaidd, a chyfarwyddodd ei oruchwylwyr yn Llundain ar y mater, gan eu hannog i gadw allan bob llyfrau Germanaidd o'i sypynau ef, neu y gallai yr oll gael eu hattal, ac efallai eu hatafaelu.

Un diwrnod, sut bynag, tua phythefnos yn ol, cyrhaeddodd sypyn o lyfrau a chylchgronau St. Petersburg, a phan yr aeth Mr. L. i'r Tolldy i'w cymmeryd ymaith, cafodd, er ei syndod, fod y sypyn wedi ei attal hyd nes y gwelai y swyddogion yn dda, oblegyd yr oedd yn y sypyn ychydig lyfrau ag oeddynt wedi eu cyhoeddi gan gwmni Llundeinig yn ddiweddar, ond wedi eu hargraffu yn Germani ! Cyhuddwyd Mr. L. o geisio osgoi pobl y Tolldy, a gorfu iddo dalu yn drwm am "gamddarlunio nwyddau," gan y desgrifid y llyfrau oll fel o "ddechreuad Seisnig." Y canlyniad oedd i'r preswylwyr Seisnig yn St. Petersburg orfod dysgwyl amser hir am y cylchgronau a ddygwyddent fod yn y sypyn.

Manion ac Hanesion.

Y GYMMANFA GANU.—Mae program Cymmanfa Abertawy am y flwyddyn nesaf yn y wasg, a rhag ofn i'r argraffwyr fod yn araf wrth eu gwaith—fel y maent yn rhy dueddol o wneyd—cynghorir y gwahanol goreu i ddechreu ar yr anthem—"Teyrnasoedd y ddaear" (gan Ambrose Lloyd), fel na fyddo amser yn cael ei wastraffu.

Y PARCH. R. J. JONES, M.A.—Blin iawn fydd gan ein darllenwyr wybod am afiechyd parhaus ein cyfaill a'n gohebydd

gododog Mr. Jones. Mewn canlyniad i ymgynghoriad a meddyg o fri yn Llundain, bu orfod i Mr. Jones ymostwng i *operation* boenus a thra pheryglus, ond trwy drugaredd, trodd pethau allan yn dra boddhaol, ac mae y claf ar wellhad. Eiddunwn am lwyr adferiad buan iddo.

GELLIONEN.—Awst 26ain, 1893, cynnaliodd yr eglwys uchod ei Gwyl Dê flynyddol. Cafwyd tywydd ffafriol, a daeth torf yn nghyd i fwynhau y danteithion parotoedig. Chwareuwyd amryw ddarnau yn ystod y dydd gan Seindorf Brês y Capel, ac aethant trwy eu gwaith yn ganmoladwy.

TREBANOS.—Medi 10fed, 1893, cynnaliodd Ysgol Sul y lle uchod ei Chyfarfod Adroddiadol dan lywyddiaeth Mr. Jenkins, Llanbedr. Gwasanaethwyd yn ystod y cyfarfod gan y personau canlynol:—Misses J. Bowen, M. Morgans, Mary S. Davies, Mary D. Davies, M. H. Davies, H. J. Morgans, Mary Bowen, M. A. Morgans; Mri. Dd. Davies, Jno. J. Williams, Ioan Davies, John Hopkin. Canodd y côr amryw ddarnau yn ystod y cyfarfod, dan arweiniad Mr. D. Davies. Aeth pawb drwy eu gwaith yn ganmoladwy, a dymuniad pawb wrth ymadael oedd: Melus, moes, mwy.

Nid yw ymddygiad ond arddangosiad rhanol o fywyd. Y mae mewn bywyd fywiogrwydd a gweithgarwch dibendraw nad yw byth yn dyfod i'r wyneb.

Mae rhwystr a rhyddid yn wrthwynebol a gwrthgyferbyniol, ond yn ein brwdfrydedd dros yr olaf ni a fynem yn fynych ddinystrio y blaenaf; ac eto fel y mae y blaenaf yn unig yn cael ei weithio allan y dichon yr olaf droi i maes i fendith ddigymmysg y mae yn alluog i ddyfod.

Mae coleri tynion yn niweidiol i'r llygaid.

Fe ddanfonwyd dros bumtheg cant o dynelli o fêl o Galifornia i Ewrop yn 1881.

Mae y Gwanwyn yn ddiarebol niweidiol i iechyd; ond y mae hyny yn benaf o herwydd diofalwch a ffolineb dyn, yn cymmeryd Gwanwyn fel pe byddai yn Haf.

Peidiwch taflu un clwtyn
Cyn dechreuad Mehefin.

ROWLAND HILL.—Mynai Rowland grogi cubyddion, ond fel byn y dywedai:—Y mae rhew parhaol yn mhocedi rhai pobl gyfoethog; gynted y dodant eu dwylaw yn eu pocedi, rhewir hwy, ac y maent yn analluog i dynu eu pyrsau allan. Pe cawn i fy ffordd, mi a'u crogwn, crogwn bawb cubyddion, ond nid yn y ffasiwn gyffredin. Mi a'u crogwn gerfydd eu sodlau, fel y gallai eu harian redeg allan o'u pocedi, fel ag i roddi tipyn o scrambl gyffredin, a chyfleusdra i'w codi i fyny a'u gosod yn y blwch casglu yn y cwrdd.

DWEYD A GWNEYD.—Ebe hen ffermwr "Os bydd dyn yn proffesu gwasanaethu yr Arglwydd, yr wyf yn caru ei weled yn gwneuthur hyny pan yn mesur y gwenith yn gystal a *phan* yn gwaeddi haleliwia."

CREFYDD. yn ol rhai, meddyginiaeth yw, yn ol eraill eu bwyd angenrheidiol.

GWEDDI.—Yn ol Syr Thomas Brown y mae cwsg yn frawd ieuangaf i angeu, ac mor debyg iddo fel na feiddiai efe byth ymddiried ei hunan iddo heb yn gyntaf fyned i weddi.

BEECHER a ddywedai fod llawer yn cymeryd y Sul megys yspwng i olchi ymaith bechodau'r wythnos.

EICH BANER.—Pan eloch i'r mor neu'r mynydd neu i'r ffynonau dygwch eich crefydd gyda chwi. Y mae llawer yn rhy debyg i'r ferch fach a ddywedodd yn ei gweddi hwyr un dydd: "Ac yn awr ffarwel i ti, O Dduw, ffarwel i ti, Iesu Grist, yr ydw i'n myn'd i Lunden 'fory."

Yr oedd Henry Ward Beecher yn meddwl ei fod yn arwydd ddrwg os byddai dyn yn gallu cymeryd i fewn holl angenion bywyd trwy offerynoliaeth yr ystymog. Dylai dynion deimlo newyn llygad a chlust yn gystal a newyn 'stymog.

Yr oedd dyn ieuanc dan brawf yn ddiweddar cyn cael ei dderbyn i'r weinidogaeth, a gofynwyd iddo: "Trwy bregethu pwy y cawsoch eich troedigaeth?" "Trwy bregethu neb" oedd yr ateb. "Cefais fy nhroi trwy ymarfer fy mam." Dyma dystiolaeth ardderchog i garitor mam.

Ebe Dr. E. E. Hale wrth gyfaill unwaith, "Peidiwch treio cario mwy nag un math o drwbwl ar y tro. Mae rhai dynion yn cario tri math,—yr oll a fu ganddynt, yr oll sy ganddynt yn awr ,a'r oll a ddysgwyliant yn y dyfodol!"

Marwgofion.

Mehefin 26ain, ar ol hir gystudd, bu farw Mrs. Sarah Hughes, priod Mr. Samuel Hughes, Llwynbedw, plwyf Cenarth, ger Castellnewydd Emlyn (diacon eglwys Undodaidd Pantteg), yn 67 oed. Y dydd Iau canlynol talwyd y gymmwynas olaf iddi gan dorf luosog o bell ac agos, a chladdwyd yr hyn oedd farwol ohoni yn mynwent Capel Evan. Darllenodd a gweddiodd y Parch. Jenkin Williams, gweinidog Pantteg, yn y ty, a phregethodd y Parch. B. Davies y gweinidog, yn Capel Evan oddiar y geiriau a welir yn Jeremiah xii bennod a'r 5ed adn. Yr oedd yr ymadawedig o gymmeriad pur, yn meddu ond ar un wyneb ac yn siampl deilwng i ran luosog o wragedd y gymmydogaeth. Bu yn briod ffyddlon ac yn fam dyner trwy ei holl fywyd. Gadawodd briod, plant ac wyron mewn dwfn alar ar ei hol. Nerth a gafont oll i ymddiried yn Nuw Dad; a'r nefoedd a weno ar y teulu ar ol colli un ac oedd mor anwyl a rhinweddol.

Gorph. 18fed, 1893, bu farw Catherine, anwyl blentyn Jenkin a Margaret Morgan, Craigtrebanos, yn flwydd a dau fis oed. Claddwyd hi y dydd Mawrth canlynol yn mynwent hen gapel Gellionen. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. J. T. Davies, Pontardawe.

Awst yr 21ain, 1893, Mrs. Eleanor Jones, Caebadell, Abertawe, priod Mr. Evan Jones, a merch Mr. a Mrs. Thomas Evans, Porthyrhyd, Pontshan, yn 33 oed. Tra y bu yr ymadawedig yn sir Aberteifi bu yn aelod ffyddlawn yn eglwys Llwynrhydowen. Bu yn fam dyner, yn briod hawddgar a ffyddlon, ac yn Gristion da. Gadawodd bedwar o blant i alaru ar ei hol. Ar y 25ain hebryngwyd y corff i gladdfa Llwynrhydowen. Dechreuodd y Parch. T. Thomas y cwrdd yn y Capel a gweddiodd ar lan y bedd. Pregethodd y Parch. W. J. Davies y bregeth angladdol. Y Tad Nefol fo'n help i'n cyfaill Evan i ddwyn ei blant i fyny yn llwybran daioni.

Awst yr 22ain, bu farw Miss Sarah Thomas, merch Mr. a Mrs. John Thomas, Pantybryn, Capelyfadfa, yn 19eg oed, ar ol dyoddefaint byr ond caled. Bu yr ymadawedig yn aelod ffyddlon o eglwys, côr, ac Ysgol Sul Bwlchyfadfa hyd ei hangeu. Merch dawel, dirion a charedig ydoedd. Ar y 24ain claddwyd yr hyn oedd farwol ohoni yn nghladdfa Bwlchyfadfa. Daeth torf fawr i'r cynhebrwng. Gweinyddodd y Parch. W. J. Davies, gweinidog y lle, ar yr achlysur. Boed i'r rhieni ymdawelu o dan yr ergyd chwerw hwn gan gyflawn gredu fod y cyfan er y goreu.

Awst 24ain, bu farw Rees, anwyl blentyn Jenkin a Margaret Morgan, Craigtrebanos, yn bedwar mis oed. Claddwyd ef y dydd Sadwrn canlynol yn Gellionen. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. R. Rees, Alltwen. Nawdd Duw fyddo ar y teulu hwn yn eu galar ar ol eu hanwyliaid. Gwelwn eu bod wedi claddu dau o'u hanwyliaid mewn ychydig dros fis o amser.

Awst 29ain, Tivor Evans, baban bychan John a Mary Evans, Penllain, Cellan. Claddwyd yn mynwent Caeronen, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle.

Awst 30ain, Mr. Evan Davies, Minffordd Castle, Pencarreg, yn 70 mlwydd oed. Cafodd ein cyfaill ei dori i lawr mewn modd tra annysgwyliadwy, ac ar ol byr gystudd; ac y mae ei symmudiad sydyn yn dwyn ar gof ini unwaith etto mor ddiflanedig yw bywyd dyn ar y ddaear. Profiad hynod flin o leiaf i rai pobl yw ffarwelio yn angeu a'r naill gyfaill ar ol y llall, heb son am brofiad perthynasau agos. Dyn syml a hollol ddirodres oedd Evan Davies; dyn hollol ddiniwed a chyfaill didwyll, mwynaidd, a siriol; dyn a chanddo air caredig a serchog i gyfoethog a thylawd; dyn a llawer o'r cymwynasgar yn ei natur. Yr oedd yn fab i'r diweddar Anthony Davies, Coedmorefawr; yn nai i'r diweddar Barchedig Jno. Davies, Castellnedd, ac yn frawd-yn-nghyfraith i'r diweddar Barchedig William Rees, Rhydygwin, ac yr oedd y ddau'n gyfeillion mynwesol, a chafodd y ddau eu symmud yn fuan ar ol eu gilydd. Nid ydym yn meddwl ei fod byth yn hollol yr hyn oedd ef o'r blaen wedi marwolaeth Wm. Rees. Yr oedd yn un o naw o blant, ac nid oes yn aros heddyw o berthynasau agos ond un chwaer, ac un nith i alaru ar ei ol. Gadawodd gan' punt mewn *Deed of Gift* at Brondeifi. Ar ddydd ei angladd daeth torf o bell ac agos i weini iddo y gymmwynas olaf. Claddwyd yr hyn oedd farwol ohono yn mynwent Brondeifi, a gwasanaethwyd gan weinidog y lle.